CYFFES FFYDD

38. Am fedydd.

Y mae bedydd yn ordinhad o osodiad Crist fel Brenin yn ei eglwys, ac i barhau ynddi hyd ddiwedd y byd (a), i gael ei gweinyddu gan weinidogion o'i osodiad a'i anfoniad ef ei hun yn unig (b). Ac y mae yn cael ei gweinyddu'n addas trwy daenellu neu dywallt dŵr ar y bedyddiedig, yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân (c); ac ni ddylid gweinyddu yr ordinhad hon ond unwaith ar yr un person (d); ac y mae gan gredinwyr proffesedig, ynghyd â'u plant bychain, hawl ysgrythurol i'r ordinhad hon (e); ac y mae yn arwyddocau marwolaeth i bechod, a buchedd newydd i gyfiawnder (f). Nid yw yr ordinhad hon yn anhepgorol angenrheidiol er iachawdwriaeth; ac eto y mae yn bechadurus ei hesgeuluso yn wirfoddol, gan fod hynny yn anufudd-dod i orchymyn pendant o eiddo Crist (g). Y mae'r ordinhad i gael ei gweinyddu yn gyhoedd yn y gynulleidfa, oddieithr fod amgylchiadau yn galw am y gwrthwyneb (h).

38. Of Baptism.

Baptism is an ordinance which Christ, as King, instituted in his church, to be observed to the end of time (a), and to be administered only by ministers appointed and sent by Christ himself (b). It is duly administered by sprinkling or pouring water on the baptised person, in the name of the Father, of the Son, and of the Holy Ghost (c). It should be administered but once on the same person (d). All who profess themselves believers, and their infant children, have a scriptural right to this ordinance (e). It is an emblem of their death unto sin, and of newness of life unto righteousness (f). This ordinance is not essentially necessary to salvation;

yet it is a sin wilfully to neglect it, in as much as that would be an act of disobedience to a positive command of Christ (g). It should be administered publicly in the congregation, except when circumstances require it otherwise (h).

Addendum (Added in 1874) We also recognize in addition to the form referred to in Article 38 the validity of Believer's Baptism by immersion or effusion, and the dedication of infants. The doctrine of Baptism as an ordinance is something to be decided by each individual believer after studying the Scriptures and seeking guidance from the Holy Spirit.

(a) Math./Matt. 28:19, 20; Gal. 3:27; Ioan/John 1:33; 3:26; 4:2; Rhuf./Rom. 6:3.

(b) Math./Matt. 28:19 gwêl/see (a); Heb. 5:4.

(c) Math./Matt. 28:19 gwêl/see (a); Actau/Acts 1:5, 8:36-38, 10:47-48; 1 Pedr/1 Peter 1:2; 1 Cor. 10:2; Heb. 10:22, 12:24; Eseia/Isa. 52:15; Esec.Ezek. 36:25; Ioan/John 1:33.

(d) Eff./Eph. 4:5.

(e) Marc/Mark 10:13-16, 15:16; Actau/Acts 2:38-39, 16:33; Gen. 17:7; 1 Cor. 7:14, 10:2;Eseia/ Isa. 40:1; Gal. 3:27-29; Salm/Psa. 127:3; Luc./Luke 18:15-16; 1 Ioan/1 John 2:12.

(f) Rhuf./Rom. 6:3-4; Sech./Zech.13:; 1 Ioan/1 John 1:7; Gal. 3:27 gwêl/see (a); Titus 3:5; Ioan/John 3:5-7.

(g) Gal. 6:15; Actau/Acts 2:38; Luc/Luke 7:30; Marc/Mark 16:16.

(h) Actau/Acts 2:38 gwêl/see (g), 10:2-48.